**Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm**

**Yn absenoldeb y Llywydd, y Dirprwy Lywydd oedd yn cadeirio'r cyfarfod**

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

**..............................................**

**2.50pm**
**Datganiad Busnes**
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**..............................................**

**3.01pm**
**Pwynt o Drefn**
**Jenny Randerson o dan Reol Sefydlog 6.3** ar y cyfrifoldeb ar Weinidogion i weithredu penderfyniadau a wnaed gan y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn.

**..............................................**

**3.03pm**
**Atal Rheolau Sefydlog**

NDM2322: Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 37.5:

1. Yn atal y rhan o Reol Sefydlog 5.4 sy'n ei gwneud hi'n ofynnol mai'r Datganiad Busnes Wythnosol yw'r amserlen y cytunwyd arni ar gyfer busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnos ganlynol, i ganiatáu i NNDM2321 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ar 2 Mawrth 2005; ac

2. Atal Rheol Sefydlog 6.14 er mwyn caniatáu i unrhyw welliannau i NNDM2321, a gyflwynwyd cyn 5.00pm ddydd Llun 28 Chwefror, gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 2 Mawrth 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 53; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 53

**Derbyniwyd y cynnig**

**..........................................**

**3.04pm**
***Ni chafwyd dadl ar yr eitem hon. Cynhaliwyd pleidlais arni'n syth.***

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 25 section 3, 25.13 & 25.14**

NDM2315 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24.25, 25.13 a 25.14:

1. Yn cymeradwyo'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Cofrestri Perthnasol Gweithwyr Cymdeithasol) 2005, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Chwefror 2005; ac

2. Yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau hyn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Chwefror 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 53; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 53
**Derbyniwyd y cynnig**

**..........................................**

**3.05pm**
***Ni chafwyd dadl ar yr eitem hon. Cynhaliwyd pleidlais arni'n syth.***

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25**

NDM2308 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24.25:

1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno, ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Chwefror 2005, ar y Rheoliadau drafft, Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Addysg (Cymru) (Diwygio) 2005 a,

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Addysg (Cymru) (Diwygio) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Chwefror 2005
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Chwefror 2005

2. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno, ac a anfonwyd drwy'r

e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Chwefror 2005 ar y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2005 a,

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol â:
i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2005
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2005

3. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Chwefror 2005, ar y Rheoliadau draff, Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Arolygiadau Gofal Iechyd) (Cymru) 2005 a,

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Arolygiadau Gofal Iechyd) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2005
ii) yr Arfarniad Rheoliadol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2005
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Chwefror 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 53; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 53
**Derbyniwyd y cynnig**

**............................................**

**3.06pm**
**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2005**

NDM2313 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2005, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Chwefror 2005.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - David Melding (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar y Gweinidog i ddarparu adnoddau ychwanegol er mwyn plismona a monitro’r Ddeddf hon yn ddigonol.

**Gwelliant 2 - David Melding (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar y Gweinidog i lansio ymgyrch, ar y cyd â’r cymdeithasau perthnasol a’r cyfryngau, i gynghori’r cyhoedd ar y rheoliadau sy’n gysylltiedig â’r Ddeddf.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i adolygu'n rheolaidd gostau gweithredu'r Gorchymyn ar gyfer awdurdodau lleol, a sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cwrdd â'r holl gostau yn llawn fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i ariannu yn llawn y mentrau a'r cyfrifoldebau sy'n cael eu trosglwyddo i lywodraeth leol.

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1 i egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 19; Ymatal 6; Yn erbyn 28; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 1 i egwyddor y Gorchymyn**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 2 i egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 2 i egwyddor y Gorchymyn**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 3 i egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 3 i egwyddor y Gorchymyn**

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 10; Cyfanswm 53
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

NDM2314 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Chwefror 2005, ar y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2005 a,

2. Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol ag:
a) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Chwefror 2005
b) y Memorandwm Cywiriadau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Chwefror 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 10; Cyfanswm 53
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**..........................................**

**3.41pm**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) 2005**

NDM2311 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2005.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:
Yn gresynu bod llawer o gleifion sydd ag afiechydon cronig yn parhau i dalu am eu presgripsiynau.

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn gresynu bod Llywodraeth y Cynulliad wedi methu cadw at yr ymrwymiad a ddeilliodd o gynnig NDM1283 (a drafodwyd ar 4 Chefror 2003) i roi blaenoriaeth i ddarparu presgripsiynau di-dâl i'r bobl hynny sy'n dioddef o anhwylderau cronig.

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi mai ym 1968 y lluniwyd y rhestr o glefydau ac anhwylderau na ddarperir presgripsiynau di-dâl ar eu cyfer, a bod hynny'n golygu bod datblygiadau yn y gwyddorau meddygol yn ystod y 37 blynedd diwethaf yn cael eu diystyru.

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1 i egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 10; Ymatal 10; Yn erbyn 28; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd Gwelliant 1 i egwyddor y Rheoliadau**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 2 i egwyddor y Rheoliadau** O blaid 10; Ymatal 10; Yn erbyn 28; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd Gwelliant 2 i egwyddor y Rheoliadau**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 3 i egwyddor y Rheoliadau** O blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd Gwelliant 3 i egwyddor y Rheoliadau**

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 44; Ymatal 5; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

NDM2312 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Chwefror 2005, ar y Rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd

Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) 2005 a,

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:
a) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2005
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 45; Ymatal 5; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

**............................................**

***Cynnig i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gan bleidleisio arnynt ar wahân***

**4.06pm**

**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau'r Comisiwn Archwilio ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a Lloegr) 2005 o dan Reol Sefydlog 26**

NDM2316 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 26, yn cytuno bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau'r Comisiwn Archwilio ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a Lloegr) 2005, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Chwefror 2005.

*Mae perthnasedd y Gorchymyn yng Nghymru yn amodol ar gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

*Gosodwyd y Memorandwm Esboniadol yn y Swyddfa Gyflwyno ac fe'i hanfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Chwefror 2005.*

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 47; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47
**Derbyniwyd y cynnig**

**............................................**

**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol) 2005 o dan Reol Sefydlog 26**

NDM2317 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 26, yn cytuno bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol) 2005, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Chwefror 2005.

*Mae perthnasedd y Gorchymyn yng Nghymru yn amodol ar gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

*Gosodwyd y Memorandwm Esboniadol yn y Swyddfa Gyflwyno ac fe'i hanfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Chwefror 2005.*

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 45
**Derbyniwyd y cynnig**

**............................................**

**4.14pm**

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.27 (iv) Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 2005**

NDM2310 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 2005, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Chwefror 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

NDM2309 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â'r rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Chwefror 2005.

*I'w nodi: Nid oes Adroddiad wedi'i osod gan y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, gan fod Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion gweithdrefniadol o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii).*

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

..........................................

**4.21pm**

**Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru**
NDM2307 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)
Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau arian Amcan 1 ar gyfer y cyfnod 2007-2013 o gofio bod Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn debygol o fod yn gymwys ar ôl 2006.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu popeth ar ôl "Cynulliad Cenedlaethol" a rhoi yn ei le:
Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i geisio argyhoeddi Llywodraeth y DU bod angen dod i benderfyniad ar y Cronfeydd Strwythurol cyn diwedd mis Mehefin 2005.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn condemnio Llywodraeth y Cynulliad am fethu â rheoli'r cronfeydd Amcan 1 a ddyrannwyd ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn effeithiol, na'u defnyddio i greu ffyniant economaidd, ac yn dilyn datgelu'r ffaith bod y Llywodraeth ar y pryd wedi cydnabod pwysigrwydd arian cyfatebol yn 2000, yn galw ar y Llywodraeth bresennol i sicrhau, ar gyfer y cyfnod 2007 – 2013, bod Trysorlys y DU yn darparu arian cyfatebol yn ychwanegol at gydran Ewropeaidd rhaglen y Cronfeydd Strwythurol.

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn credu y byddai'n fwy llesol i Gymru pe bai Llywodraeth y Cynulliad yn mynd ati'n rhagweithiol i sicrhau bod cefnogaeth i gynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y cronfeydd strwythurol ar ôl 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 25; Ymatal 1; Yn erbyn 28; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O Blaid 16; Ymatal 11; Yn erbyn 28; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Y cynnig**
O Blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y cynnig**

**............................................**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.11pm**

**.....................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mercher, 2 Mawrth 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

### Dogfennau a Osodwyd ar 28 Chwefror 2005

Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 6) (Cymru) 2004 Refeniw Ychwanegol i Ysgolion - LD3541

The National Health Service (Pharmaceutical Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2005 - LD3542 Dim fersiwn Gymraeg ar Gael

### Dogfennau a Osodwyd ar 25 Chwefror 2005

Adroddiad gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar y Mesur Drafft Lles Anifeiliaid - LD3540

### Dogfennau a Osodwyd ar 24 Chwefror 2005

Adroddiad gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar Reoliadau Addysg (Cymwysterau a Chofrestru Penaethiaid) (Cymru) 2005 (ELL-07-05) a Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 (ELL-29-04) - LD3538

### Dogfennau a Osodwyd ar 23 Chwefror 2005

Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005 - LD3536

Adroddiad y Pwyllgor Busnes o dan Reol Sefydlog 13.1(iii) - LD3537

Report of the Committee on Standards of Conduct: Standards Commissioner and new Complaints Procedure - LD3535 *Dim fersiwn Gymraeg ar Gael*